yn glywadwy:

Y Prosiect Soddgrwth Baroc

www.baroquecelloproject.com

Iau 23 Hydref – Sadwrn 8 Tachwedd 2014

ARCADECARDIFF



cydweithrediad aml-gyfrwng

Leona Jones, Siôn Dafydd Dawson, Adam Winskill, Jeff Chapman

Diolch am ymweld â'n gosodwaith. Byddwn o gwmpas ar wahanol amserau yn ystod adeg y cyflwyniad, felly os oes gennych unrhyw gwestiynnau neu sylwadau, byddwn yn falch iawn i wrando a thrafod. Mae Siôn hefyd yn ddwyieithog.

Cafodd y soddgrwth, a wnaed gan Luthier Adam, ei gomisiynnu gan y cerddor, Siôn yn 2014. Dechreuwyd y crefftio â llaw yng ngweithdy Adam yn Llundain fis Rhagfyr 2014 wedi iddo chwilio pren o ansawdd cywir (masarn a sbriws yn bennaf). O'r cychwyn, byddai Leona yn recordio'r synau a Jeff y delweddau o'r broses gwneud mewn amgylchedd llawn arogl pren, blawd llif a naddion. Roedd y gwneud yn broses organig: cnawdol, cymhleth, creulon, crynodedig, cain, ailadroddus, ac hefyd yn ddyrys yn gorfforol ac yn feddyliol. Wrth gasglu'r deunydd ar gyfer y prosiect, roedd angen dilyn y broses, yn hytrach na thorri ar draws neu dynnu sylw oddiwrtho.

Uwchganolbwynt y prosiect yw'r soddgrwth ei hun ond rhoddir sylw cyfartal i elfennau eraill sy'n ymledu, – elfennau sydd fel arfer yn cael eu hepgor a'u diystyrru fel rhywbeth dibwys. O fewn synau'r broses o wneud, ac effeithiau byr eraill sydd ynghlwm ag offer rasel a llafnau, ceir rhinweddau unigryw sy'n cael eu hanwybyddu. Mae'r cyfleoedd i ganolbwyntio wrth wrando a gweld yn gwahodd hud ac ehangiad o'r offeryn cain yma, yn ogystal a'r siawns i ystyried yr hyn sydd yn aml yn cael ei daflu allan neu ei golli.

Golyga pob gweithred o wneud fod rhywbeth yn cael ei daflu. Mae gweithio gyda phren yn cynhyrchu synau cyfarwydd sy'n *crCReak*groanTHUMP ar ymylon ein byd acwstig. Dydy synau fel hyn ddim hyd yn oed fel arfer yn cael ei dynodi fel 'gwastraff' ieithyddol. Er hynny, o'u mewn ceir byd o sŵn sy'n gyfoethog ac yn llawn haenau. Mae pob sŵn grewyd yn bod am ennyd cyn diflannu o'n clyw, ac un arall yn brysio i atseinio MEWN/dros/*trwy* ei le. Ar y fainc, roedd pob un o'r synau yma, fyddai fel arfer yn cael eu anwybyddu, yn cyfrannu tuag at greu'r offeryn gorffenedig sydd nawr yn eu mysg, ac yn barod i greu ei swn ei hun. Ni amharwyd yn ddigidol ar y sainluniau wrth eu recordio. Er hynny, golygwyd pa synau i'w cynnwys a ble i'w defnyddio gan godi un sŵn ac anwybyddu un arall er mwyn cerflunio 'cerddoriaeth' o drawsnewid soletrwydd. Mae'r hyn sy'n glywadwy yn cyfleu yr hyn sydd yn anghlywadwy.

Yn ogystal â gwneud synau, mae'r soddgrwth a'r naddion i gyd yn ganlyniad o symudiadau wedi eu hystyried – symudiadau sy'n ail-adrodd dro ar ôl tro, a hyn cyn i'r cerddor greu symudiadau i gael yr offeryn 'siarad' neu 'ganu'. Nid yr offeryn yw'r unig gynnyrch solet sy'n gwneud sŵn fel canlyniad i'r gwneuthur. A beth am y pentyrrau o naddion, y darnau o bren, y soddgrwth-bron-a-bod, y darnau fyddai i'w taflu o'r neilltu neu eu llosgi - gall y rhain eu ystyried yn yr un ffordd esthetig? Beth sy'n digwydd pan mae'r pethau dibwys yn cael yr un sylw agos â'r offeryn? Mae'r holl bethau gweladwy yn mynegi yr hyn sydd yn anweledig.

Mae'r perfformiadau byrfyfyr yn parhau'r archwiliadau o diffiniadau o estheteg a gwerthoedd. Mae'r broses o byrfyfyrio, sy'n newid yn barhaus, yn golygu bod rhai syniadau yn gwbl berthnasol ar adegau, ond nid bob amser. Mae'r cydbwysedd o naturioldeb, meddwl ac ymarfer yn atal syniadau rhag datblygu i fod yn rywbeth safonedig, wedi ei or-ddefnyddio. Rhaid rhoi elfennau penodol o hyfforddiant cerddorol 'clasurol' o'r neilltu, gan adael technegau a chreadigrwydd sylfaenol, wedi ei gefnogi gan strwythur a drefnwyd ymlaen llaw, i fod yn sail o berfformiad

cydlynol. Gan barhau gyda'r thema o ddathlu'r cudd, yr anhysbys a'r diystyrru yn y weithred o seinio, cynhelir y perfformiadau mewn sefyllfa lle y bydd synau allanol sy'n newid drwy'r amser yn ymuno, o reidrwydd, gyda'r 'Soundscene'.

Er fod sawl math o dechnoleg gyfoes yn caniatáu obsesiwn / recordiadau / dogfennu / ail-adrodd / pasio ymlaen / pasioymlaenpasioymlaenpasiomewn reality, mae natur sŵn / perfformiadau byw bob amser yn fyrhoedlog. Mae unrhyw recordiad ond yn gip o ennyd penodol mewn amser o fannau penodol. Dim ond yr unigolyn all ddeall yn llwyr drostynt eu hunain sut mae tystio yn effeithio ar y seinwedd a'u canfyddiadau o arwyddocad. Ac nid yw tystio'n hawdd mewn cyfnod lle mae'n anodd canolbwyntio ac yn hawdd i golli sylw. Mae'n gofyn am ymrwymiad tu fewn y meddwl, yn ogystal â symbyliad o du allan y corff. Gwrandewch trwy glustiau eraill, meithrinwch groen arall, dychwelwch i atsain seindonau ac ystumiau sy'n dechrau ar y groesffordd rhwng tant a gwallt, llafn a phren, a sensitifrwydd bysedd.

Cwblhawyd y soddgrwth ynghanol mis Medi, a'i gyflwyno i Siôn i ddechrau cyfnod nesaf o'i fywyd. Mae'n debygol na fydd glaw, gwynt, nentydd na'r amgylchedd tu allan y bu'r pren ynghlwm ag unwaith yn agos ato mwyach. Ond, bydd yr offeryn bob amser yn cadw ei wreiddiau organig, yn ymateb i dymheredd, lleithder, cyfnodau o weithgarwch neu saib, mewn ffyrdd gwahanol dros y degawdau. Gellir ystyried bod y cyflwyniad yma, gyda'r perfformiad cyhoeddus cyntaf o'r offeryn, fel 'saib', llonyddwch cyn momentwm pellach. Mae'r llonyddwch, y cyfnod o orffwys, yn cynnig cyfleoedd i gymryd stoc, i ystyried – a gwrando ar y cysgodion di-lais yn glywadwy.

Diolch i'r holl sefydliadau fu'n rhan o'r prosiect, a diolch unigol hefyd i Lauren Jury, Robert Kennedy, Samuel Roberts a Dave Dawson, heb eu cymorth, brwdfrydedd ac arbennigedd ni allai 'yn glywadwy: Y Prosiect Sielo Baroc' fod wedi cyrraedd y Soundscene hwn.

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND LOTTERY FUNDED

QuadConsult Limited

additional support from Arnolfini Gallery, Bristol

QUEENS ARCADE

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

richer SOUNDS